| Ymyrraeth | Sgiliau Cywir | | | Gwyrdd | Cynnydd yn unol â'r targed ar hyn o bryd |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Oren | Cynnydd heb fwrw'r targed, ond yn gyraeddadwy o hyd |
| Arwain | Guy Lacey a Stephen Tiley | Cyfnod Adrodd | Chwarter 1 2022-23 | Coch | Cynnydd ymhell o fwrw'r targed |

## Prif Gyflawniadau a Llwyddiannau

Datblygwyd hyfforddiant llythrennedd carbon achrededig i'w gyflwyno ledled Casnewydd fel rhan o'r rhaglen Dysgu i Oedolion yn y Gymuned yn hydref 2022. Yn gynharach rhoddwyd prosiect a ariannwyd gan yr RDP a'i gyflwyno mewn rhannau gwledig o Gasnewydd ar restr fer y rownd derfynol yng nghategori yr Amgylchedd yng Ngwobrau Dysgo i Oedolion Inspire!

Prifysgol De Cymru a Choleg Gwent yn paratoi cynlluniau cwricwlwm mewn meysydd allweddol , adolygu'r cynnig presennol ac edrych ar ddarpariaeth newydd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cynnig dinas cydgysylltiedig wrth i CG baratoi i adeiladu ei gampws newydd gyferbyn â champws PDC Casnewydd.PDC yn penodi Swyddog Allgymorth ac Ymgysylltu yng Nghasnewydd a fydd yn cysylltu ag ysgolion, y Coleg, y Cyngor a busnesau lleol er mwyn sicrhau bod llwybrau at ddilyniant yn glir rhwng y Coleg a PDC, a bod gwaith allgymorth yn cefnogi cynnig dinas cydgysylltiedig.

Prosiect sgiliau'r sector sgrin, Troed yn y Drws, ar y gweill. Darparwyd dros 40 o ddigwyddiadau sgiliau a hyfforddi ledled Casnewydd yn amrywio o godi ymwybyddiaeth a mynediad mewn cymunedau lleol drwodd i gael hyfforddiant ffilm a theledu a gosod hyfforddeion ar set ar gyfer lleoliadau â thâl.

Cynllunio ar y gweill ar gyfer Wythnos Addysg Oedolion (19-25 Medi). Bydd digwyddiad yn Kingsway ar 22 Medi gyda phartneriaid yn hyrwyddo'r dosbarthiadau sydd ar gael. Mae'r partneriaid sydd yn rhan o'r prosiect yn cynnwys Dysgu Oedolion yn y gymuned CDC, Dysgu Oedolion Cymru, Casnewydd Fyw, PDC, POBL, Cymru'n Gweithio, Prosiect Sgiliau (Peilot) Tros Gynnal Plant Cymru Newport, Academi Ieuenctid Casnewydd, Hybiau CDC a C4Work, Get Connected, Y Gymd. Alzheimer's, Dysgu Cymraeg Gwent /Learn Welsh Gwent.

Ffair swyddi DWP Restart ledled y ddinas wedi ei chynnal 25 Mai.

| Rhwystrau i gynnydd | Statws | Camau Lliniarol |
|---|---|---|
| Mae Cronfeydd Cymdeithasol Ewrop yn dod i ben ar gyfer Aspire2Achive sy'n effeithio ar gyflwyno Ymgysylltu â Phobl Ifanc a Dilyniant (NEET) | U | Archwilio ffynonellau ariannu eraill. |

| Mesuriadau Perfformiad Allweddol | Targed | Gwirio-neddol | COG |
|---|---|---|---|
| % y disgyblion Blwyddyn 11 sy'n gadael yr ysgol nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) | 1.3% | | |
| % y disgyblion Blwyddyn 13 sy'n gadael yr ysgol nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) | 2.0% | | |
| Buddiolwyr Rhaglen Troed yn y Drws | 300 | | |
| *Nifer y digwyddiadau a'r ymholiadau allgymorth/ymgysylltu CG a PDC a grewyd yn y ddinas* | *I'w gadarnhau* | | |
| *Nifer y bobl wedi cofrestru ar gyfer hyfforddiant llythrennedd carbon yng Nghasnewydd* | *I'w gadarnhau* | | |

## Cynllun ar gyfer y chwarter nesaf a'r dyfodol

Parhau i gyflawni Troed yn y Drws. Bydd digwyddiad rhannu gwybodaeth yn cael ei chynnal yng Nghasnewydd ar ddiwedd 2022 i rannu'r hyn a ddysgwyd o'r rhaglen. Yr uchelgais yw mai Casnewydd fydd y lleoliad cyntaf ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd i ymgorffori prosiect Troed yn y Drws pwrpasol, gan weithio'n agos â'r sector sgrîn mewn partneriaeth hirdymor.

Cyflawni digwyddiad Wythnos Addysg Oedolion. Cyflawni newid yn yr hinsawdd drwy raglen Dysgu Parhaus i Oedolion Casnewydd.

Coleg Gwent yn rhannu â PDC ei brofiad a'i arbenigedd yn cefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol i mewn i fyd gwaith. PDC yn darparu profiad gwaith i ddysgwyr Coleg Gwent ar Gampws Casnewydd ym meysydd arlwyo, ystadau/diogelwch, a chymorth llyfrgell / myfyrwyr o fis Hydref. Adeiledir ar hyn yn y tymor hir a bydd yn llwyfan i'r gwaith y mae Coleg Gwent yn ei wneud yn y maes hwn ar gyfer cyflogwyr a sectorau eraill yn y ddinas.

Digwyddiad busnes posibl gyda Gweithgynhyrchu Cymru fel rhan o waith PDC/CG i sicrhau y canolbwyntir ar gyfleoedd i gefnogi uwchsgilio a bylchau ym marchnad swyddi'r sector gweithgynhyrchu mewn modd strategol.